| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **21 Mai 2026** |
| TEITL | **GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR WEITHREDU PENDERFYNIADAU BLAENOROL Y PWYLLGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o sut mae adrannau’r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau’r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio, fel bod modd i'r aelodau gael sicrwydd fod eu penderfyniadau yn cael sylw.

1.2 Mae hyn yn cyfrannu at roi sicrwydd i'r aelodau fod trefniadau llywodraethu’r Cyngor yn gweithredu’n effeithiol.

1.3 Mae’r eitem hon yn gyfle i holl aelodau’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y penderfyniadau a wnaed. Lle mae’r gweithrediad wedi ei gwblhau, neu le nad oedd gweithrediad pellach yn angenrheidiol, mae’r llinell yn cael ei dynnu o’r tabl ar ôl i’r Pwyllgor ystyried y mater.

**TAFLEN WEITHREDU**

## 2. Penderfyniadau ers sefydlu'r Cyngor Newydd (Mai 2022)

**Cyfarfod 5 Medi 2024**

| **Eitem:** | **Penderfyniadau / Arsylwadau:** | **Gweithrediadau:** | Swyddog Cyfrifol: | **Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:** | **Dileu o'r Daflen Weithredu:** |
|---|---|---|---|---|---|
| GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R CYNGOR | Derbyn cynnwys yr adroddiad. | Ychwanegu i'r daflen penderfyniad:<br>• Bod angen cynnal sesiwn gwybodaeth ar y maes digartrefedd i aelodau'r Pwyllgor ddeall y maes yn well ac i ddeall y rhesymau pam fod costau yn y maes mor uchel | Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor | Wedi ei ddisodli gan eitem fwy diweddar yn dilyn sylw ym Mhwyllgor Ionawr 2026 – gweler y rhan perthnasol o'r adroddiad isod – *Adroddiad Archwilio Cymru – Llety Argyfwng*. | **DILEU** |

**Cyfarfod 10 Hydref 2024**

| Eitem: | Penderfyniadau / Arsylwadau: | Gweithrediadau: | Swyddog Cyfrifol: | Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau: | Dileu o'r Daflen Weithredu: |
|---|---|---|---|---|---|
| ARCHWILIO CYMRU: GOFAL BRYS AC ARGYFWNG: 'LLIF ALLAN O'R YSBYTY – RHANBARTH GOGLEDD CYMRU' | • Derbyn cynnwys yr adroddiad | Cyflwyno diweddariad ar yr argymhellion ymhen 12 mis | Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Adran Oedolion | Wedi ei ddisodli gan eitem fwy diweddar yn dilyn sylw ym Mhwyllgor 6 Hydref 2025– gweler y rhan perthnasol o'r adroddiad isod – *Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol*. | **DILEU** |

**Cyfarfod 16 Ionawr 2025**

| Eitem: | Penderfyniadau / Arsylwadau: | Gweithrediadau: | Swyddog Cyfrifol: | Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau: | Dileu o'r Daflen Weithredu: |
|---|---|---|---|---|---|
| ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU - 'CYNALIADWYEDD ARIANNOL LLYWODRAETH LEOL' AC 'ADOLYGIAD O GYNALIADWYEDD ARIANNOL – CYNGOR GWYNEDD' | • Derbyn yr adroddiad Cenedlaethol a Lleol<br>• Derbyn ymateb y Cyngor i'r argymhellion | Yn dilyn derbyn cefnogaeth a chanllawiau CIPFA, Rhaglen Waith yr ymateb i'w gyflwyno i'r Pwyllgor erbyn Mawrth 2026<br>Adroddiadau Perfformiad fydd yn cael eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu i arddangos bod y gofynion statudol yn cael eu cyfarch | Pennaeth Cyllid | Mae'r gwaith ar hwn wedi llithro a bydd yn cael ei flaenoriaethu gyda'r bwriad o gyflwyno diweddariad i gyfarfod Gorffennaf 2026 | Na |

**Cyfarfod 6 Chwefror 2025**

| Eitem: | Penderfyniadau / Arsylwadau: | Gweithrediadau: | Swyddog Cyfrifol: | Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau: | Dileu o'r Daflen Weithredu: |
|---|---|---|---|---|---|
| ADRODDIAD ARCHWILIAD ARBENNIG – GOFAL CARTREF | • Derbyn a nodi'r cynnydd i ganfyddiadau arolwg Archwilio Mewnol a'r trefniadau Gofal Cartref y Cyngor<br>• Croesawu'r Rhaglen Waith trylwyr sydd mewn lle i wella'r ddarpariaeth<br>• Bod angen diweddariad pellach ymhen 12 mis ar gynnydd a llwyddiant y rhaglen waith | Cyflwyno diweddariad pellach i'r Pwyllgor ymhen 12 mis ar gynnydd a llwyddiant y rhaglen waith | Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Adran Oedolion, Pennaeth Cynorthwyol Busnes | Diweddariad wedi ei ddarparu mewn atodiad - Adroddiad Archwiliad Gofal Cartref - Diweddariad 2026 | Na |

**Cyfarfod 9 Hydref 2025**

| Eitem: | Penderfyniadau / Arsylwadau: | Gweithrediadau: | Swyddog Cyfrifol: | Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau: | Dileu o'r Daflen Weithredu: |
|---|---|---|---|---|---|
| ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL | • Derbyn yr adroddiad | Derbyn adroddiad cynnydd o'r Archwiliad 'Llif allan o'r Ysbyty', Gwanwyn 2026 | Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Adran Oedolion | Nodwyd nad oedd unrhyw weithredoedd nac unrhyw ddiweddariad i'w roi ar yr eitem hon. | **DILEU** |

**Cyfarfod 15 Ionawr 2026**

| Eitem: | Penderfyniadau / Arsylwadau: | Gweithrediadau: | Swyddog Cyfrifol: | Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau: | Dileu o'r Daflen Weithredu: |
|---|---|---|---|---|---|
| GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR | • Derbyn cynnwys yr adroddiad | Derbyn diweddariad ar eitemau 5/9/24 (cynnal sesiwn gwybodaeth ar y maes digartrefedd) a 10/10/24 (diweddariad ar argymhellion Archwiliad Gofal Brys: Llif Allan o'r Ysbyty) erbyn y cyfarfod nesaf | Archwilio Cymru | Wedi ei ddisodli gan eitem fwy diweddar a dderbyniodd sylw yng nghyfarfod 3 Chwefror 2026, *Adroddiadau Archwilio Cymru – Llety Dros Dro, Argyfwng Hirdymor?* | **DILEU** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CYNLLUN YMATEB I'R ADRODDIAD CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER | • Derbyn manylder y Cynllun Ymateb<br>• Yn diolch i'r Swyddogion am eu gwaith ac yn croesawu bod y Cynllun Ymateb yn cael ei drafod mewn sawl fforwm<br>• Bod angen crynodeb / blaen dudalen syml a phendant o'r prif bwyntiau gweithredu<br>• Bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y camau sydd wedi eu gweithredu neu sydd yn cael eu hystyried fel ymateb addas a phriodol â'r sefyllfa<br>• Cais gan y Pwyllgor i Estyn gydnabod gwendidau eu hadroddiad ar drefniadau diogelwch y Cyngor, Mehefin 2023<br>• Bod Trefniadau Canu'r Gloch a Threfniadau Diogelu angen bod ymysg y gorau<br>- croesawu adolygiadau i'r polisïau hyn | Cais i adolygu paragraff olaf 2.5 o'r Cynllun Ymateb: 'Ymchwiliad i Ddigwyddiadau 2019 sydd wedi bod yn destun sylw gan y wasg' – angen mwy o gyd-destun am yr ymchwiliad annibynnol a gwblhawyd a beth oedd y penderfyniad dros beidio rhannu'r adroddiad / casgliadau.<br>Cais i osod cyd-destun i ganmoliaeth Estyn i drefniadau diogelu'r Cyngor (Mehefin 2023). Y geiriad fel y mae yn amhriodol o ystyried y methiannau a ddaethpwyd i'r amlwg yn ddiweddarach. | Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol | Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Cyngor llawn ar 5 Chwefror 2026. Cyflwynwyd sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod hwnnw. | **DILEU** |

| Eitem: | Penderfyniadau / Arsylwadau: | Gweithrediadau: | Swyddog Cyfrifol: | Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau: | Dileu o'r Daflen Weithredu: |
|---|---|---|---|---|---|
| | - angen diweddariad ar y gwaith, yr amserlen a'r modd maent yn cael eu mabwysiadu | | | | |
| CYLLIDEB REFENIW 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2025 | • Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2025 o'r Gyllideb Refeniw | Nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth | Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau | Dim Gweithrediad Pellach | **DILEU** |
| RHAGLEN GYFALAF 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2025 | • Derbyn yr adroddiad a chytuno ar yr argymhellion i'r Cabinet eu hystyried | | Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau | Dim Gweithrediad Pellach | **DILEU** |
| TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION | • Derbyn yr adroddiad<br>• Nodi'r cynnydd, y sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt Trosolwg Arbedion | Cynnig cefnogaeth wedi ei dargedu ar gynlluniau nad yw'r Adrannau yn gallu eu gwireddu | Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau | Bydd hyn o dan adolygiad parhaus | **DILEU** |

| Eitem: | Penderfyniadau / Arsylwadau: | Gweithrediadau: | Swyddog Cyfrifol: | Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau: | Dileu o'r Daflen Weithredu: |
|---|---|---|---|---|---|
| POLISI LLEIHAU TRETH CYNGOR O DAN ADRAN 13A(1)(C) O DDEDDF CYLLID LLYWODRAETH LEOL 1992 | • Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol<br>• Croesawu penderfyniad y Cabinet i gymeradwyo'r Polisi<br>• Croesawu bod y Polisi o dan adolygiad parhaus a bod modd i'w addasu wrth i unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu newid mewn amgylchiadau gael eu cyflwyno. | Ail eirio paragraff 3.3 atodiad 2 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb i atgyfnerthu'r datganiad<br>Ychwanegu twristiaeth gynaliadwy fel maes blaenoriaeth i baragraff 4.5, Adroddiad Cabinet | Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cynaliadwyedd a Datblygiadau, Rheolwr Trethi | Bydd y pwyntiau hyn yn derbyn ystyriaeth wrth adolygu'r Polisi | Na – angen ei gadw tan fydd y Polisi wedi cael ei adolygu'n ffurfiol |

**Cyfarfod 3 Chwefror 2026**

| **Eitem:** | **Penderfyniadau / Arsylwadau:** | **Gweithrediadau:** | **Swyddog Cyfrifol:** | **Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:** | **Dileu o'r Daflen Weithredu:** |
|---|---|---|---|---|---|
| MATERION BRYS | Pryder nad oes capasiti digonol gan yr Uned Archwilio Mewnol i gwrdd â disgwyliadau'r Cyngor | • Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn amlygu'r sefyllfa a'r risgiau posib.<br>• Angen sicrwydd bod y gwaith sydd angen ei gyflawni gan Archwilio Mewnol yn parhau i fod o safon uchel | Pennaeth Cyllid | Adroddiad ar flaen raglen y Pwyllgor i'w gyflwyno i gyfarfod Gorffennaf 2026 | Na |
| GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR | Derbyn cynnwys yr adroddiad | | Pennaeth Cyllid | Dim gweithrediad pellach | **DILEU** |

| Eitem: | Penderfyniadau / Arsylwadau: | Gweithrediadau: | Swyddog Cyfrifol: | Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau: | Dileu o'r Daflen Weithredu: |
|---|---|---|---|---|---|
| CYLLIDEB 2026/27 | • Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnwys<br>• Derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol<br>• Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo Cyllideb 2026/27 yn eu cyfarfod 10/02/26<br>• Diolch i'r Adran Cyllid am y gwaith trylwyr o baratoi'r Gyllideb<br>• Sefyllfa gorwariant yn bryderus<br>• Pryder bod y gronfa wrth gefn yn lleihau – croesawu ymarferiad cynhaeafu<br>• Cynlluniau datblygu / gwella darpariaethau Cartrefi Preswyl yng Ngwynedd - cais i ganfyddiadau ymchwiliad Housing LIN Cymru gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor | Rhestr bidiau cyfalaf - cynllun i ymestyn maes parcio Ysgol y Faenol. Cais gan yr Aelod Lleol am fanylion pellach ynglŷn â rhesymau dros lithrad amser (dyddiad gwreiddiol 2021) a'r costau ynghlwm â'r llithriad<br>- Awgrym i gyflwyno gwybodaeth am dreth y Cyngor mewn gwerth ariannol (£) yn hytrach na chanran (%) yn unig<br>- Datganiad y Swyddog Cyllid 'anochel bod y gyllideb yn cynnwys elfen o risg o ragdybiaethau' ... a oes cynlluniau mewn lle petai ostyngiad yng nghasgliadau premiwm tai, ond cynnydd yn y galw am adeiladu tai? | Pennaeth Cyllid | Y gyllideb wedi ei chyflwyno i'r Cabinet ar 10 Chwefror, a wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 5 Mawrth.<br><br>Cynamserol cyflwyno diweddariad adroddiad Housing LIN Cymru | **Na** |

| **Eitem:** | **Penderfyniadau / Arsylwadau:** | **Gweithrediadau:** | **Swyddog Cyfrifol:** | **Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:** | **Dileu o'r Daflen Weithredu:** |
|---|---|---|---|---|---|
| STRATEGAETH GYFALAF 2026/27 (YN CYNNWYS STRATEGAETH BUDDSODDI A BENTHYG) | • Derbyn yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol<br>• Cefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r Strategaeth i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth ar y 5ed o Fawrth 2026<br>• Bod cyflwyniad calonogol gan Arlingclose, Ymgynghorwr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor (30-01-2026) wedi bod yn fuddiol iawn, ac wedi rhoi hyder a sicrwydd i'r Aelodau bod y Cyngor ar y trywydd cywir | | Pennaeth Cyllid | Y Strategaeth wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2026. | **DILEU** |

| Eitem: | Penderfyniadau / Arsylwadau: | Gweithrediadau: | Swyddog Cyfrifol: | Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau: | Dileu o’r Daflen Weithredu: |
|---|---|---|---|---|---|
| CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad a chefnogi’r gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda’r gwasanaethau perthnasol<br>• O ganlyniad i ddiffyg gwelliant yn y maes gofal preswyl mewn trefniadau addas ar gyfer rheoli'r cartrefi yn briodol a diffyg cydymffurfiaeth gyda phrosesau rheolaethol, y Pwyllgor angen sicrwydd bod sylwadau Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried. Y sefyllfa angen sylw pellach. | | Rheolwr Archwilio | Y sefyllfa o ran y cartrefi preswyl i’w adolygu gan Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn | Na |
| CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2025/26 | Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad | | Rheolwr Archwilio | Dim gweithrediad pellach | **DILEU** |
| SIARTER ARCHWILIO MEWNOL | Derbyn a chymeradwyo cynnwys y Mandad a'r Siarter Archwilio Mewnol, i'w gymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau. | | Rheolwr Archwilio | Dim gweithrediad pellach | **DILEU** |

| **Eitem:** | **Penderfyniadau / Arsylwadau:** | **Gweithrediadau:** | **Swyddog Cyfrifol:** | **Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:** | **Dileu o'r Daflen Weithredu:** |
|---|---|---|---|---|---|
| STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL 2026/27 | Derbyn a chymeradwyo cynnwys y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2026/2027, i'w cymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau. | | Rheolwr Archwilio | Dim gweithrediad pellach | **DILEU** |

| Eitem: | Penderfyniadau / Arsylwadau: | Gweithrediadau: | Swyddog Cyfrifol: | Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau: | Dileu o'r Daflen Weithredu: |
|---|---|---|---|---|---|
| ADRODDIAD AROLYGAETHAU ESTYN AC AROLYGAETH GOFAL | • Derbyn yr adroddiad<br>• Derbyn bod pedwar o'r argymhellion yn cyfateb i gynlluniau gwaith sydd eisoes yng nghynllun ymateb adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder<br>• Derbyn nad oedd dau o'r argymhellion yn y cynllun ymateb ond eu bod bellach wedi eu cynnwys ac yn derbyn sylw priodol<br>• Gwerthfawrogi dilynant / adroddiad cynnydd ar yr ymatebion i'r argymhellion<br>• Siomedig eto nad oedd cydnabyddiaeth gan Estyn ar fethiannau eu harolwg ar drefniadau diogelwch y Cyngor, Mehefin 2023 | | Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Addysg | Diweddariad i'w gyflwyno gan y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Cyfarfod ym mis Mai 2026. | Na |

| Eitem: | Penderfyniadau / Arsylwadau: | Gweithrediadau: | Swyddog Cyfrifol: | Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau: | Dileu o'r Daflen Weithredu: |
|---|---|---|---|---|---|
| TREFNIADAU AR GYFER COMISIYNU GWASANAETHAU - CYNGOR GWYNEDD | Derbyn ymateb sefydliadol y Cyngor i'r argymhellion o fewn yr adroddiad A1. Sefydlu trefniadau comisiynu cyson A2. Ymgorffori trefniadau ar draws y Cyngor | | Rheolwr Caffael | Dim gweithrediad pellach | **DILEU** |

| Eitem: | Penderfyniadau / Arsylwadau: | Gweithrediadau: | Swyddog Cyfrifol: | Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau: | Dileu o'r Daflen Weithredu: |
|---|---|---|---|---|---|
| ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU - LLETY DROS DRO, ARGYFWNG HIRDYMOR? | • Derbyn Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru<br>• Derbyn ymateb sefydliadol y Cyngor i'r argymhellion; - A1 Gwerth am arian - - A2 Cynllunio ar gyfer Atal A3 Gweithio mewn Partneriaeth<br>• Croesawu'r gwaith da sydd yn cael ei wneud gan yr Uned Ddigartrefedd<br>• Cais am adroddiad yn rhoi diweddariad ar y gwaith peilot sydd yn cael ei wneud gan y Cyngor i ryddhau tai gwag yn ôl i ddefnydd<br>• Derbyn diweddariad ar gynnydd y cynllun ymateb sefydliadol | • Cais am adroddiad yn rhoi diweddariad ar y gwaith peilot sydd yn cael ei wneud gan y Cyngor i ryddhau tai gwag yn ôl i ddefnydd<br>• Derbyn diweddariad ar gynnydd y cynllun ymateb sefydliadol | Rheolwr Digartrefedd a Chefnogaeth, Pennaeth Cynorthwyol Busnes | Dim diweddariad i'w gynnig ar gyfer cyfarfod Mai, 2026 | Na |
| BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR | Derbyn y rhaglen waith hyd Fawrth 2027 | | Pennaeth Cyllid | Dim gweithrediad pellach | **DILEU** |

**3. ARGYMHELLIAD**

**3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:**

- **Ystyried cynnwys y daflen weithredu uchod a chynnig sylwadau**
- **Cytuno i dynnu o'r taflenni y materion hynny a nodir fod modd eu dileu.**